Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ofal Plant Mes Bach
# Ysgol Gynradd Comins Coch
# Comins Coch
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 3BQ

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yw Gofal Plant Mes Bach. Mae'n cyfarfod mewn adeilad pwrpasol ar dir Ysgol Comins Coch, Aberystwyth, yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae'r lleoliad yn darparu addysg yn ystod y tymor, naill ai mewn sesiynau bore neu sesiynau prynhawn, bum niwrnod yr wythnos, rhwng 8.30am a 3.30pm.

Mae'r lleoliad wedi ei gofrestru i dderbyn hyd at 20 o blant ar unrhyw adeg benodol, ac mae'n derbyn plant rhwng dwy a phedair oed. Mae bron pob plentyn tair oed yn derbyn addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir ar hyn o bryd. Daw llawer o blant o gefndiroedd gwyn Prydeinig ac nid yw unrhyw blant yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd.

Mae'r lleoliad yn cyflogi rheolwr a phedwar ymarferwr cymwys, gan gynnwys arweinydd yr ystafell. Dechreuodd y rheolwr ac arweinydd yr ystafell yn eu swyddi ym mis Mawrth 2018. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym Medi 2018 a chan Estyn yn Chwefror 2013.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn ddysgwyr sy'n dangos cymhelliant a diddordeb
- Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn gwrando'n synhwyrol ar oedolion ac ar ei gilydd
- Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol ac effeithiol
- Mae ymarferwyr yn herio plant i berfformio o'u gorau bob amser
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac mae eu harferion cyson o ran gofal a chymorth yn creu amgylchedd dysgu diogel i blant ddysgu
- Mae ymarferwyr yn defnyddio'r ardaloedd dysgu y tu mewn i'r adeilad yn bwrpasol i gefnogi dysgu plant yn dda

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rheolwr ac arweinydd yr ystafell yn darparu cyfeiriad clir i waith y lleoliad
- Mae'r rheolwr yn arfarnu arferion y lleoliad yn drylwyr
- Mae'r rheolwr a'r pwyllgor rheoli yn ystyried safbwyntiau pawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad yn drylwyr, fel rhan o brosesau hunanarfarnu effeithiol
- Mae ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant effeithiol i gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus
- Mae defnydd buddiol o bartneriaid a gwasanaethau allanol yn cynorthwyo'r rheolwr a'r ymarferwyr yn bwrpasol i dargedu gwelliannau yn nysgu'r plant
- Mae defnydd llwyddiannus o gyllid a grantiau yn sicrhau gwelliannau yn ansawdd y ddarpariaeth
- Mae'r pwyllgor rheoli yn cefnogi'r lleoliad yn dda

## Argymhellion

A1 Trefnu sesiynau grŵp mawr yn fwy effeithiol i gynnal diddordeb pob un o’r plant

A2 Defnyddio arsylwadau dyddiol yn bwrpasol i gynllunio ac olrhain y camau nesaf yn nysgu’r plant yn effeithiol

A3 Gwella’r ddarpariaeth yn yr ardal awyr agored i sicrhau bod plant yn datblygu ystod eang o fedrau yn effeithiol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd effeithiol o ran eu mannau cychwyn. Defnyddiant eu medrau llythrennedd a chyfathrebu yn llwyddiannus wrth gwblhau tasgau bob dydd a thasgau heriol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cyfathrebu effeithiol. Maent yn siarad yn dda ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn glir a dealladwy yn ystod tasgau â ffocws a gweithgareddau annibynnol. Maent yn gwrando ar, ac yn ymateb i, gyfarwyddiadau yn synhwyrol. Mae hyn yn amlwg iawn pan fyddant yn creu golygfa jyngl gan ddefnyddio mwd, jeli a brocoli, a phan fyddant yn didoli peli o liwiau gwahanol gan ddefnyddio plycwyr. Mae ychydig o blant yn defnyddio iaith soffistigedig yn bwrpasol mewn chwarae digymell a strwythuredig, er enghraifft wrth dorri sbageti â siswrn i hydoedd gwahanol.

Mae llawer o blant yn dangos diddordeb cynyddol mewn llyfrau. Maent yn trin a thrafod y llyfrau yn yr ardaloedd darllen fel darllenwyr naturiol. Mae llawer ohonynt yn eistedd yn dawel ac yn dilyn storïau a ddarllenir iddynt yn dda. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i gynnwys stori, er enghraifft pan fyddant yn trafod yr emosiynau a ddangosir gan wahanol gymeriadau ac anifeiliaid.

Mae llawer o blant yn creu marciau yn llwyddiannus. Maent yn mwynhau ymarfer eu hysgrifennu ac yn defnyddio cyfryngau amrywiol fel paent, sialc, pensiliau a mwd gwlyb. Mae ychydig o blant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau yn annibynnol ac mewn ffurfiau adnabyddadwy, er enghraifft pan fyddant yn cofnodi eu henwau ar bapur ac mewn tywod. Mae gan lawer o blant ddealltwriaeth gadarn o ddiben ysgrifennu, er enghraifft pan fyddant yn cofnodi'r bobl sy'n prynu tocynnau ar gyfer taith fws yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Er enghraifft, maent yn cymharu hydoedd sbageti fel 'hir' a 'byr' ac yn datgan bod gwahanol gerrig yn 'drwm' neu'n 'ysgafn' wrth drafod eu pwysau. Mae llawer o blant yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau i ddeg yn hyderus ac mae ychydig ohonynt yn cyfrif yn ôl o ddeg i sero yn gywir.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn effeithiol. Maent yn cyfrif nifer yr eliffantod o feintiau gwahanol yn fedrus wrth eu didoli a'u paru, ac yn trefnu anifeiliaid y jyngl mewn grwpiau yn llwyddiannus, yn unol â'u nodweddion gwahanol. Maent yn adnabod siapiau dau a thri dimensiwn yn dda. Mae hyn yn cynnwys marcio siapiau dau a thri dimensiwn ar fyrddau du gyda sialc ac adeiladu tyrau gyda siapiau tri dimensiwn yn yr ardal adeiladu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau defnyddio eu medrau TGCh yn gynhyrchiol, er enghraifft wrth ddefnyddio ystod addas o offer, fel camerâu ac offer recordio. Defnyddiant feddalwedd addysgol cyfoes, sy'n cynnwys apiau iaith ac apiau mathemategol ar gyfrifiaduron llechen, i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn briodol. Mae llawer ohonynt yn canu hwiangerddi a chaneuon yn Gymraeg yn frwdfrydig, ac yn dilyn cyfarwyddiadau a roddwyd yn Gymraeg yn rhwydd. Mae llawer ohonynt yn dechrau defnyddio'r iaith yn ddigymell wrth iddynt chwarae, yn enwedig wrth gyfrif ac adnabod lliwiau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau meddwl da, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau datrys problemau a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn gweithio'n dda gyda phlant eraill i gymysgu cacennau yn y gegin fwd, gan ddilyn rysáit a defnyddio cynhwysion dynodedig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda, er enghraifft pan fyddant yn dringo a llithro ar offer yn yr awyr agored ac yn reidio beiciau a cheir yn yr ardal awyr agored. Mae llawer o blant yn dangos medrau creadigol effeithiol, sy'n cynnwys canu a pherfformio yn ardal theatr y bwa helygen, gan ddefnyddio amrywiaeth o offerynnau cerdd.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu, ac maent yn cynnal lefelau cadarnhaol o ymgysylltu yn ystod tasgau. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau ac mae llawer ohonynt yn rhannu adnoddau ac yn gweithio'n synhwyrol gyda'i gilydd dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ffitrwydd ac wrth brintio siapiau anifeiliaid gyda phaent a sbyngau.

Mae bron pob un o'r plant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda. Dangosant barch at oedolion ac at ei gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n ofalus ar ymarferwyr, er enghraifft wrth gymysgu dŵr a mwd cyn peintio â brwshys ar îsl. Mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr, ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae anniben a gweithgareddau awyr agored.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau gwneud dewisiadau synhwyrol yn ystod chwarae rhydd. Maent yn mynegi barn a ffafriaethau personol yn dda, er enghraifft wrth benderfynu symud o un ardal ddysgu i un arall yn annibynnol, dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd.

Mae bron pob un o'r plant yn ymgysylltu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr yn y lleoliad. Mae llawer ohonynt yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan fyddant yn esbonio'n synhwyrol i'w gilydd beth yw diben eu gweithredoedd, heb ymglymiad nac anogaeth gan oedolyn, er enghraifft pan fyddant yn torri a didoli toes i weddu i anghenion gwahanol anifeiliaid, fel gwneud bananas i'r mwnci eu bwyta.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r cynllunio

yn bodloni anghenion a diddordebau plant yn dda ac yn darparu cyfleoedd ysgogol iddynt ddysgu'n annibynnol. Mae ymarferwyr yn galluogi plant i gyfrannu eu syniadau eu hunain at gynllunio pob thema. Maent yn cofnodi eu syniadau yn yr ardal gynllunio er mwyn llywio cynllunio yn y dyfodol yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau wedi eu harwain gan oedolyn a gweithgareddau wedi'u harwain gan y plentyn.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl plant. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau llythrennedd a rhifedd ysgogol ym mhob maes dysgu i herio'r plant i berfformio o'u gorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd creadigol fel chwarae rôl yn yr ardal 'Teithiau Saffari'.

Mae'r lleoliad yn darparu heriau rheolaidd ac arloesol i helpu plant i ddatblygu eu medrau datrys problemau. Enghraifft effeithiol o hyn yw pan fydd ymarferwyr yn annog plant i ddewis deunyddiau priodol i adeiladu tai ar gyfer anifeiliaid a chydweithio'n effeithiol i greu balŵns aer poeth gyda'i gilydd.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol a chreadigol plant yn llwyddiannus. Maent yn galluogi plant i archwilio ac arbrofi ar lithrenni ac mewn twneli ac ymarfer medrau cicio a thaflu ag amrywiaeth o offer.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg. Maent yn eu hannog i ymateb i ymadroddion a chyfarwyddiadau syml, ac yn ymuno â chaneuon a rhigymau yn frwdfrydig. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo pob un o'r plant yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae llawer o blant yn defnyddio geiriau Cymraeg yn gywir yn ystod chwarae annibynnol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a bywyd Santes Dwynwen. Yn ychwanegol, maent yn pobi cacennau traddodiadol ac yn cymharu Cymru â gwledydd a diwylliannau eraill, fel gwledydd Affrica a'r Dwyrain Canol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu plant a gwella eu dealltwriaeth o'u hardal leol. Maent wedi ymweld â'r orsaf dân i ddysgu am y gwasanaethau brys ac wedi cerdded ar hyd lan y môr yn Aberystwyth i brynu hufen iâ. Mae'r plant yn postio llythyrau yn y pentref ac yn cymryd rhan mewn teithiau cerdded natur i gasglu eitemau ar gyfer eu bwrdd hydref, sy'n creu diddordeb yn y byd naturiol o'u cwmpas. Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys y postman, glanweithydd deintyddol a pherchnogion anifeiliaid ecsotig, yn addysgu'r plant yn ystyrlon am rolau gwahanol bobl yn eu cymuned eu hunain.

## Addysgu: Da

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o egwyddorion y cyfnod sylfaen ac o sut mae plant yn datblygu a dysgu. Maent yn sicrhau bod pob un o'r plant yn deall diben y gweithgaredd yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cymell ac ennyn brwdfrydedd y plant i gyflawni eu gorau. Maent yn cyfarch y plant yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd ac yn rheoli eu hymddygiad yn gadarnhaol a sensitif.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob un o'r plant. Defnyddiant holi yn bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu plant. Mae hyn yn amlwg pan fydd plant yn trafod nodweddion lliwiau dail yn yr hydref a'r modd y mae gwahanol dywydd yn effeithio ar weithgareddau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn trefnu sesiynau grŵp mawr yn effeithiol er mwyn cynnal diddordeb pob plentyn trwy gydol y sesiwn.

Mae ymarferwyr yn rhannu cyfrifoldebau fel gweithwyr allweddol yn llwyddiannus, sy'n galluogi iddynt gael dealltwriaeth well o anghenion unigol plant. Mae gan y lleoliad systemau priodol ar gyfer asesu a chofnodi mannau cychwyn plant. Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau dyddiol ac yn nodi eu harfarniadau a'u harsylwadau yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau asesu yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, nid ydynt yn olrhain cynnydd plant unigol yn effeithiol dros gyfnod.

Mae ymarferwyr yn annog plant i asesu eu dysgu eu hunain yn effeithiol, trwy drafodaethau pwrpasol ar sut i wella eu gwaith. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn herio plant i esbonio sut mae uchder tŵr yn effeithio ar ei sefydlogrwydd a pha synau anifeiliaid wedi'u recordio sy'n cyd-fynd â'r lluniau yn yr ardal ymchwilio.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant, er enghraifft trwy ddeialog ddyddiol drylwyr rhwng ymarferwyr a rhieni a gofalwyr. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am gyflawniadau eu plant. Mae'r lleoliad yn rhannu hyn â'r ysgol i gefnogi'r broses bontio effeithiol a'r camau nesaf yn addysg y plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i blant drafod eu teimladau a gwerthfawrogi cyfraniad ei gilydd yn ystod tasgau a chyd-chwarae. Maent yn creu amgylchedd pwyllog ac yn annog plant i wrando ar ei gilydd yn feddylgar mewn lleoliadau cymdeithasol, fel amser byrbryd ac wrth ganu rhigymau Cymraeg gyda'i gilydd. O ganlyniad, mae plant yn dysgu uniaethu â'i gilydd yn dda ac yn cymryd eu tro yn gwrtais, sy'n cynnwys arllwys diodydd a dosbarthu platiau a chwpanau yn eu tro. Mae tasgau o'r fath a defnyddio 'Helpwr y dydd', i helpu amser byrbryd, yn creu cyfleoedd cadarnhaol a defnyddiol i blant ymgymryd â chyfrifoldebau. Mae'n galluogi iddynt ddysgu am wneud penderfyniadau synhwyrol ac effeithiol drostynt eu hunain a thros bobl eraill.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae hyn yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at ei gilydd yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn trafod eu teimladau eu hunain tuag at gymeriadau mewn stori a sut mae unigolion yn teimlo yn dilyn gweithredoedd pobl eraill. Mae hyn yn arwain at ethos cadarnhaol ymhlith y plant pan fyddant yn gweithio gyda'i gilydd i gwblhau tasgau, fel symud tywod mewn bwcedi a gwahanol gynwysyddion.

Mae gan ymarferwyr drefniadau llwyddiannus i gefnogi iechyd a lles plant, gan gynnwys systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae plant yn deall pwysigrwydd diet cytbwys sy'n cynnwys ffrwythau, llysiau a bod

ymarfer corff yn dda iddynt. Mae ymarferwyr yn annog plant i ailgylchu papur, cardfwrdd, nwyddau plastig a bwyd a defnyddio'r bin compost yn briodol. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau cadarnhaol yn llwyddiannus, sy'n helpu plant i ddysgu sut i ymddwyn yn dda. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel a saff, ac mae ymarferwyr yn gofalu'n dda am y plant pan fyddant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn dilyn canllawiau i nodi a chynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Maent yn ymateb i gyngor ac yn gweithio gydag asiantaethau priodol yn ôl yr angen, i ddarparu cymorth pwrpasol ar gyfer plant ag anghenion penodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar sydd ag awyrgylch cynnes a theuluol. Mae ymarferwyr yn annog plant i drin pobl eraill â gofal a dangos parch atynt, beth bynnag fo'u rhywedd, eu hil neu'u cefndir. Mae'n lleoliad cynhwysol ac fe gaiff pob un o'r plant yr un cyfle i fanteisio ar bob profiad dysgu, y tu mewn i'r adeilad ac yn yr ardal awyr agored.

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n helpu plant i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd, ac yn eu hannog i drin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Mae hyn yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Diwali bob blwyddyn.

Mae arddangosfeydd deniadol ac addysgiadol yn gwella'r amgylchedd dysgu ac yn dathlu cyflawniadau plant yn dda. Mae maint yr ardaloedd addysgu yn briodol ar gyfer nifer y plant sydd wedi eu cofrestru ar unrhyw adeg benodol. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r gofod sydd ar gael dan do yn dda trwy ddefnyddio gwahanol ardaloedd yn reddfol i hyrwyddo dysgu'r plant. Mae hyn yn arwain at ofodau dysgu hyblyg dan do, sy'n annog plant i wneud dewisiadau annibynnol yn eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, er bod darpariaeth yn yr ardal awyr agored wedi gwella yn ddiweddar, nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r adnoddau hyn yn effeithiol i sicrhau bod plant yn gwella eu medrau'n llwyddiannus.

Mae amgylchedd dysgu'r lleoliad yn lân a threfnus ac mae'r rheolwr a'r pwyllgor rheoli yn cynnal a chadw'r adeilad yn effeithlon.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r rheolwr wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o'i anghenion. Mae hi wedi sefydlu prosesau a systemau sicrhau ansawdd effeithiol mewn cyfnod byr fel rheolwr y lleoliad. Ynghyd ag arweinydd yr ystafell a'r ymarferwyr eraill, mae'n targedu gwelliannau yn bwrpasol ac yn darparu cyfeiriad clir i waith y lleoliad. Mae'r rheolwr yn gosod disgwyliadau uchel iddi hi ei hun a phobl eraill, sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu darpariaeth well i effeithio'n gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan y plant.

Mae'r rheolwr ac arweinydd yr ystafell yn sicrhau bod y ddarpariaeth ddyddiol ar gyfer pob un o'r plant yn ysgogol a difyr trwy fonitro eu harferion yn rheolaidd. Maent yn hyrwyddo datblygiadau newydd yn effeithiol ac yn cymell ymarferwyr i wneud gwelliannau mewn modd cefnogol. Mae hyn wedi arwain at newidiadau effeithlon wrth gynllunio tasgau llythrennedd a rhifedd, a dealltwriaeth gliriach o fannau cychwyn plant.

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm. Mae ganddynt swydd ddisgrifiadau clir, sy'n eu galluogi i ddeall a chyflawni eu dyletswyddau yn llwyddiannus. Trwy drafodaethau rheolaidd, cyfarfodydd a hyfforddiant staff, maent yn rhannu gwybodaeth bwysig yn effeithiol ac yn datblygu dull cyson o ran eu harferion dyddiol. Mae hyn yn cynnwys gwersi Cymraeg wythnosol y gall rhieni eu mynychu hefyd, sy'n dangos eu parodrwydd i ddysgu a datblygu'n broffesiynol.

Mae'r rheolwr ac arweinydd yr ystafell yn creu amgylchedd lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac felly'n rhoi o'u gorau. Mae'r rheolwr yn cynnal goruchwyliadau a gwerthusiadau effeithlon o ymarferwyr ac mae'r pwyllgor rheoli yn gwerthuso gwaith y rheolwr yn effeithiol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am arferion o ddydd i ddydd y lleoliad gan y rheolwr. Mae ei aelodau yn gefnogol ac yn herio'r lleoliad yn gadarn i gynnal ei arferion llwyddiannus a datblygu unrhyw feysydd y nodwyd bod angen eu gwella.

Mae'r lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant yn effeithiol, yn ogystal â datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh, i hyrwyddo medrau gwell ymhlith y plant.

### Gwella ansawdd: Da

Mae'r lleoliad yn defnyddio ystod fuddiol o weithdrefnau hunanarfarnu sy'n galluogi arweinwyr i nodi cryfderau a'r meysydd y mae angen eu datblygu. Mae prosesau hunanarfarnu'r lleoliad yn ystyried safbwyntiau'r ymarferwyr, y rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru yn dda. Mae'r rheolwr yn gweithio'n effeithiol gyda'r ymarferwyr eraill ac maent wedi sefydlu trefniadau rheolaidd i fonitro safonau plant a'r ddarpariaeth ddyddiol. Maent yn rhannu gwybodaeth yn bwrpasol trwy gydol y sesiynau ac yn ystod cyfarfodydd staff rheolaidd. Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, er enghraifft mireinio'r prosesau rheoli perfformiad i dargedu hyfforddiant effeithiol ar gyfer yr holl ymarferwyr.

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu effeithlon yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn dda trwy fonitro'r ddarpariaeth yn rheolaidd, rhoi hyfforddiant perthnasol ar waith ac arfarniadau priodol o ddeilliannau plant. O ganlyniad, mae'r rheolwr a'r pwyllgor rheoli yn gosod targedau pwrpasol yn unol â graddfeydd amser addas i wella arferion a darpariaeth y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys dynodi ymarferwyr i grwpiau penodol o blant a gwahanol dasgau, sy'n defnyddio eu harbenigedd yn dda, gan arwain at effaith gadarnhaol ar fedrau plant.

Mae'r rheolwr a'r pwyllgor rheoli yn neilltuo cyllid digonol i fodloni'r targedau sy'n deillio o'r prosesau hunarfarnu. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol â meysydd a nodwyd i'w gwella yn effeithiol ac yn defnyddio grantiau i wella darpariaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, darparwyd grant gan archfarchnad leol i brynu offer ar gyfer yr ardal awyr agored i wella ei darpariaeth a chael effaith fuddiol ar ddysgu plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad yn gweithio’n effeithiol gyda phartneriaid i wella darpariaeth a deilliannau plant. Maent yn cydweithio’n dda ag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru. Mae hyn yn gwella a chefnogi gwaith y lleoliad yn bwrpasol ac yn weithredol gyda dogfennau hyfforddi a rheoli.

Mae cysylltiadau sefydledig y lleoliad ag ysgol y pentref yn cefnogi trefniadau trosglwyddo plant yn dda. Er enghraifft, mae’r trefniadau ar gyfer ymweliadau ymsefydlu a rhannu asesiadau a gwybodaeth bersonol yn helpu’r plant i ymgynefino’n gyflym yn eu hysgol newydd.

Mae ymarferwyr yn cymryd camau pwrpasol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad, sy’n cynnwys defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol. Hefyd, mae’n eu hannog i fynegi eu safbwyntiau eu hunain ar faterion i wella’r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd, sydd wedi arwain at gylchlythyrau gwell a rheolaidd. Enghraifft nodedig o’r bartneriaeth hon yw’r lleoliad yn gwahodd rhieni i ymuno ag ymarferwyr mewn gwersi Cymraeg wythnosol.

Mae’r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau â’r gymuned yn llwyddiannus i gefnogi a chyfoethogi dysgu’r plant, sy’n cynnwys defnyddio’r gwasanaethau brys ac ymweliadau â’r pentref ac Aberystwyth, i ddefnyddio eu hadnoddau i hyrwyddo dysgu’r plant.

Mae ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy’n gwneud cyfraniad pwysig tuag at wella darpariaeth. Mae’r rhain yn cynnwys asiantaethau sy’n cynorthwyo’r lleoliad â hyfforddiant fel cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, y cyfnod sylfaen a hyfforddiant amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r rheolwr yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy ddefnyddio ymarferwyr a neilltuo adnoddau yn effeithiol. Mae’n caniatáu i ymarferwyr weithio mewn gwahanol rolau i sicrhau bod eu medrau yn datblygu’n bwrpasol i ddarparu ar gyfer anghenion pob un o’r plant yn y lleoliad. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn dda ac yn arwain tasgau yn gyfrifol fel gweithwyr allweddol.

Mae cymuned ddysgu lwyddiannus yn bodoli yn y lleoliad, lle mae cydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill yn cefnogi pob agwedd ar waith y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys arferion ymsefydlu effeithiol gyda'r ysgol leol, sy’n darparu cyfnod trosglwyddo esmwyth ar gyfer plant i’r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae’r systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn sicrhau profiadau dysgu effeithiol ac arferion addysgu cadarn. Mae’r pwyllgor rheoli yn cefnogi a herio’r rheolwr a’r ymarferwyr fel ffrind beirniadol, er enghraifft o ran eu defnydd o’r ardal awyr agored. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn rheoli ei adnoddau yn greadigol ac yn synhwyrol i gefnogi dysgu. Er enghraifft, mae’n darparu amrywiaeth eang o offer TGCh, gan gynnwys llechi electronig, camerâu, teganau electronig ac offer recordio, sy’n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh plant yn bwrpasol.

Mae'r rheolwr a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb a grantiau'n dda ac yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag amserlenni a chyfrifoldebau penodol yn effeithlon. Mae arferion o'r fath yn creu gwelliannau pwrpasol, rheolaidd a chyson. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod defnyddio cyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth gyffredinol ac ar wella deilliannau plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian, o ganlyniad i'r cynnydd cadarnhaol a wna plant o'u mannau cychwyn, y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |